

**Adran Rheoleiddio/Regulatory Department**  
**Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**  
**Public Protection Service**  
Uwch Reolwr/Senior Manager – John C



Reynolds

**Cyngor ar lifogydd i fusnesau**

**Cyngor cyn llifogydd**

Os cewch rybudd am lifogydd mae'n bwysig fod pawb wedi paratoi ac yn gwybod pa gamau sydd angen iddynt eu cymryd yng nghyswllt eu heiddo hwy. Os yw'n bosib, dylid symud offer a stociau bwyd o unrhyw ardal sydd mewn perygl o lifogydd. Peidiwch ag amcangyfrif yn rhy isel y lefel y gallai'r dŵr godi ato.

- Ewch i nôl bagiau tywod a dyfeisiau eraill amddiffyn rhag llifogydd.
- Ewch i nôl diheintydd.
- Cysylltwch â'ch cwmni yswiriant; dylent roi cyngor i chi ar gamau penodol y dylech eu cymryd i fodloni eich gofynion polisi.
- Dylid symud pob offer a dodrefn (y gellir eu symud) i'r llawr nesaf os yw'n bosib, ond o leiaf yn bell uwchlaw'r lefel dŵr disgwylidig. Rhaid i chi ystyried y risgiau allai codi a thrin beri i iechyd a diogelwch eich gweithwyr.
- Diffoddwch osodiadau ac offer trydanol a nwy.
- Sicrhewch fod y draeniau o'ch eiddo yn rhedeg yn effeithiol.
- Os oes raid i chi gadw bwyd mewn ardal sy'n debygol o fynd yn wlyb neu'n damp, sicrhewch fod yr holl fwyd sydd mewn bagiau a chynwysyddion wedi agor yn cael eu rhoi mewn cynwysyddion aerdyn (*airtight*) fel bod y bwyd ddim yn mynd yn damp, yn llwydo neu'n anaddas i'w fwyta.

**Cyngor ar ôl llifogydd**

Wrth i'r dŵr llifogydd gilio bydd staff y cyngor yn cynnig cyngor i chi.

Fel busnes rhaid i chi ystyried eich diogelwch chi eich hun, diogelwch eich gweithwyr, y cyhoedd a chontractwyr sy'n dod i mewn i'ch eiddo.

Rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch dyletswyddau dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 pan fo staff yn gwneud gwaith na fyddent fel arfer yn ei wneud. Os yw eich eiddo mewn perygl o lifogydd, dylai fod asesiad risg wedi cael ei wneud.

**Cyngor ar ôl llifogydd i fusnesau bwyd**

Gallai'r tîm Diogelwch Bwyd ymweld ag eiddo sydd wedi'i effeithio gan lifogydd i gynnig cyngor penodol ar hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch, yn arbennig glanhau a diheintio

offer yn briodol, a chael gwared yn briodol ar offer, bwyd a diod sydd wedi'u difrodi gan lifogydd.

- Os yw bwyd tun neu becynnau bwyd heb eu hagor wedi dod i gyswllt â dŵr llifogydd, dylid eu gwaredu.
- Dylid taflu unrhyw becynnau agored nad ydynt mewn cynwysyddion aerdyn, p'un a ydynt wedi dod i gyswllt â dŵr llifogydd neu beidio, oherwydd mae'n debygol eu bod wedi mynd yn damp.
- Dylid taflu'r holl ddiodydd mewn tun neu botel (gwin, gwirodydd, cwrw a diodydd meddal) sydd wedi dod i gyswllt â dŵr llifogydd.
- Rhaid taflu casgenni cwrw pren sydd wedi cael unrhyw gyswllt â dŵr llifogydd. Mae'n bosib y gellid defnyddio barilau cwrw metel cyn belled â bod y dŵr llifogydd heb gyrraedd unrhyw gysylltiad, neu agoriad i mewn neu allan ohono.
- Rhowch wybod i'ch cyflenwyr, wrth ddychwelyd unrhyw farilau, casgenni ac ati eu bod wedi dod i gyswllt â dŵr llifogydd, fel eu bod yn gallu gweithredu'r camau gofal angenrheidiol.
- Os oedd y dŵr llifogydd yn cynnwys disel, yna ni ddylai unrhyw gynwysyddion ddaeth i gyswllt â'r dŵr gael eu defnyddio.

Cysylltwch â ni os ydych angen tystysgrif at ddibenion yswiriant, neu os ydych angen cymorth i waredu offer, nwyddau a bwyd sydd wedi difrodi. Efallai y codir tâl am roi'r dystysgrif. Fel arfer gellir cael y costau hyn yn ôl gan eich cwmni yswiriant.

Mae'n hanfodol cael gwared ar yr holl fwyd a diod sydd wedi'u difrodi gan lifogydd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu bwyta/yfed ac yn achosi salwch. Os ydych yn ansicr ynglŷn â gwaredu eitemau o'r fath yn ddiogel, cysylltwch â ni am gyngor.

## Y glanhau

Gellir lleihau risgiau i iechyd drwy ddilyn rhagofalon hylendid cyffredinol. Drwy gydol y cyfnod glanhau, mae'n hanfodol nad oes risg i iechyd a diogelwch eich staff nac i unrhyw bobl eraill sydd â mynediad i'ch eiddo.

Mae eich cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn parhau'n berthnasol, hyd yn oed yn y cyfyngder hwn.

- Rhaid i chi sicrhau bod eich staff yn ymwybodol o'r rhagofalon hyn wrth fynd ati i lanhau.
- Dylai'r bobl sy'n glanhau wisgo dillad amddiffynnol gan gynnwys menig, oferôls, esgidiau addas a defnyddio dresin sy'n dal dŵr i orchuddio unrhyw doriadau i'r croen neu friwiau agored.
- Rhaid cymryd gofal wrth ymdrin â malurion afonydd, dodrefn, offer ac eitemau eraill sy'n rhaid cael gwared â nhw. Ni ddylid rhoi pobl mewn sefyllfaoedd ble mae perygl iddynt ddod i gyffyrddiad uniongyrchol â sbwriel sydd o bosib wedi'i halogi ac efallai'n cynnwys gwrthrychau cudd, miniog neu dolciog.
- Unwaith eto, rhaid ystyried y risgiau y mae codi a thrin yn eu peri i iechyd a diogelwch eich gweithwyr. Os oes risg yn bodoli, mae Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Thrin 1992 yn berthnasol.
- Rhaid glanhau pob arwyneb â dŵr sebon cynnes ac yna'u diheintio.

- Mae'n hollbwysig bod hylif diheintio'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Unwaith y bydd y gwaith mopio wedi'i gwblhau, i sychu'r eiddo, bydd angen i chi ei awyru cymaint â phosib cyn defnyddio gwres cymedrol i drïo'i sychu ac yn olaf efallai y bydd angen i chi ddefnyddio peiriant i reoli lleithder yr aer.

### **Cyngor glanhau i fusnesau bwyd**

Rhaid glanhau'r holl ardaloedd paratoi bwyd, yr arwynebau, yr offer, y gwydrau, y llestri, y cynhwysyddion bwyd, y llinellau cwrw a'r optics yn drwyadl gyda dŵr sebon cynnes ac yna'u diheintio drwy ddefnyddio hylif diheintio sy'n ddiogel i'w ddefnyddio mewn ardaloedd bwyd, megis Milton.

Ni fydd posib glanhau eitemau sydd wedi'u difrodi'n ormodol, gyda chraciau neu dolciau, felly dylid cael gwared ohonynt.

Er bod ambell i offer yn gweithio'n iawn, ni fydd modd eu glanhau a'u diheintio'n hawdd iawn. Rhaid cael gwared ag unrhyw offer megis oergelloedd, rhewgelloedd a phoptai os yw'r motor neu'r ffan wedi'i gynnwys ym mhrif gorff yr uned, neu'n cysylltu ag o'n uniongyrchol.

Os yw tu mewn i'r offer yn llyfn ac os nad yw'n ddeunydd amsugol sydd ddim yn cysylltu'n uniongyrchol â'r motor neu'r ffan, yna mae'n bosib glanhau'r uned yn iawn a'i ddiheintio, cyn belled bod y seliau'n eu lle. Os yw'r seliau wedi'u difrodi o gwbl, nid oes modd eu glanhau a'u diheintio'n ddigonol, ac efallai bod dŵr y llifogydd wedi cyrraedd y tu mewn i'r uned. Os felly, dylid cael gwared â'r uned mewn modd priodol.

COFIWCH: Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'ch yswirwyr CYN i chi gael gwared ag unrhyw offer.

Os ydych yn ansicr ynghylch a oes angen cael gwared â'r offer ai peidio, neu a oes modd ei ddiheintio'n iawn ai peidio, cysylltwch â ni, ac fe drefnwn i ymweld â chi i'ch cynghori.

### **Ailagor eiddo bwyd**

Unwaith y bydd eich eiddo yn barod i ailagor i fasnachu, rhowch wybod i ni. Efallai y byddwn yn dymuno ymweld er mwyn gwneud yn siŵr y gellir sicrhau fod diogelwch bwyd (ac iechyd a diogelwch eich staff a'ch cwsmeriaid) a hefyd i dawelu eich meddwl os oes gennych unrhyw bryderon pellach.

### **Pla Cnofilod**

Gall y dŵr yn y llifogydd fod wedi aflonyddu ar gnofilod a gallent fod wedi dod i mewn i'ch eiddo ac achosi difrod i wifrau trydan a dodrefn.

Os bydd problem dylid cysylltu â chontractwr rheoli pla a gellir cysylltu â'n tîm rheoli pla drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen hon.

## Diogelwch Trydanol

Gall offer trydanol a gosodiadau trydanol beri risgiau diogelwch difrifol os ydynt wedi'u difrodi gan lifogydd.

- Diffoddwch bob gosodiad ac offer trydanol os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod
- Peidiwch â gweithredu offer sydd mewn dŵr neu tra byddwch chi'n sefyll mewn dŵr
- Cadwch draw oddi wrth unrhyw offer 'byw' sydd dan ddŵr
- Dylai pob gosodiad trydanol neu offer trydanol sydd wedi'u difrodi gan lifogydd gael eu gwirio gan gontractwr trydanol cymwys cyn ailgychwyn eu defnyddio.
- Cysylltwch â'ch cyflenwr trydan os bydd gennych unrhyw bryderon ynghylch y cyflenwad o'r mesurydd trydan a'r cyflenwad am yn ôl.

## Diogelwch Nwy

Gall offer nwy a gosodiadau nwy beri risgiau diogelwch os ydynt wedi'u difrodi gan lifogydd.

- Os yw'n bosib, trowch y falf rheoli nwy i ffwrdd (fel arfer mae'r falf wedi'i lleoli yn agos at y mesurydd nwy)
- Rhaid i chi sicrhau fod pob offer nwy wedi'u diffodd er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddŵr yn mynd i mewn i'r pibellau cyflenwi nwy yn eich cartref.
- Mae'n hanfodol bwysig am resymau diogelwch bod yr offer nwy yn cael eu harchwilio gan beiriannydd *Gas Safe* cyn cychwyn eu hailddefnyddio. Efallai y bydd yr offer yn ymddangos fel eu bod yn gweithio'n iawn ond efallai bod y llifogydd wedi cael effaith andwyol ar y ffliw neu'r systemau awyru sy'n hanfodol i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn.
- Os byddwch yn aroglu nwy neu'n amau fod nwy wedi gollwng ar unrhyw adeg, galwch Wales & West Utilities (WWU) ar unwaith ar 0800 111 999.

## Cyflenwad Dŵr

Mae'n bosib yr effeithiwyd ar ansawdd y dŵr yfed i'ch eiddo. Bydd Dŵr Cymru Welsh Water yn monitro ansawdd y dŵr yfed. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am eich cyflenwad dŵr, cysylltwch â 0800 052 0130.

Dylid glanhau unrhyw dapiau sydd wedi bod dan ddŵr wedi'i halogi gan ddefnyddio hydoddiant cannu a'u rhedeg am 30 eiliad cyn defnyddio'r dŵr tap.

Mae'n bosib bod gennych y cyfleusterau isod yn eiddo eich busnes ac efallai y byddwch angen help arbenigol gyda'r rhain yn dilyn y llifogydd.

## Lifftiau a hoists

Eto, dylai person cymwys wirio'r cyfarpar yma'n drylwyr er mwyn sicrhau nad yw dŵr y llifogydd wedi effeithio ar ddiogelwch y system.

## **Pyllau nofio**

Os yw'r pyllau wedi'u gorlifo, rhaid iddynt gael eu draenio, eu glanhau'n drylwyr a'u diheintio. Ar ôl ail-lenwi'r pwll, dylid profi'r dŵr i wneud yn siŵr nad yw'r system yn dal wedi'i halogi â bacteria niweidiol.

## **Cemegau**

Mae'n bosib y bydd olion cemegol ar ôl wedi i ddŵr y llifogydd gilio, o gynwysyddion sydd ar agor ar eich eiddo chi neu o rywle arall. Gall rhai o'r cemegau hyn fod yn niweidiol a gallent gyfuno â chemegau eraill a ffurfio sylwedd mwy peryglus. Dylech gysylltu â chyflenwyr y cemegau i ofyn am gyngor.

**Cofiwch, ni ddylech adael i aelodau'r cyhoedd fynd yn ôl i'r eiddo hyd nes y bydd yr eiddo'n ddiogel eto.**

Am gyngor pellach, ffoniwch **01766 77100** a gofynnwch am gael siarad â Thîm Iechyd yr Amgylchedd yn eich swyddfa ardal.